

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Cyfarwyddyd o dan baragraff 29 o Atodlen 22 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 – mangre Cinema&Co. Swansea Ltd

Dyrododwyd

am 3.10 p.m. ar 26 Tachwedd 2021

1. Mae Gweinidogion Cymru—

(a) ar ôl gwneud datganiad o dan baragraff 26(1) o Atodlen 22 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 ar 29 Mawrth 2020, a

(b) ar ôl rhoi sylw i gyngor a gafwyd gan Brif Swyddog Meddygol Cymru,

yn dyroddi'r cyfarwyddyd hwn o dan baragraff 29(1) o Atodlen 22 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 at ddibenion atal, diogelu rhag, a rheoli mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws.

2. Yn y cyfarwyddyd hwn, ystyr “mangre benodedig” yw mangre Cinema&Co. Swansea Ltd yn 17 Castle Street, Abertawe, SA1 1JF.

3. Rhaid i'r fangre benodedig fod wedi ei chau am 3.45 p.m. ar 26 Tachwedd 2021 a pharhau i fod ar gau—

(a) hyd nes y penderfynir ynghylch cais a wnaed gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar 23 Tachwedd 2021 mewn cysylltiad â'r fangre benodedig am Orchymyn o dan adran 45I o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, gan gynnwys unrhyw apel a wneir o dan adran 67 o'r Ddeddf honno, neu

(b) os yn gynharach—

(i) hyd nes y caiff y datganiad y cyfeirir ato ym mharagraff 1(a) ei ddirymu gan Weinidogion Cymru, neu

(ii) hyd nes y caiff y cyfarwyddyd hwn ei ddirymu gan Weinidogion Cymru.

4. Rhaid i'r personau a ganlyn gymryd unrhyw gamau gweithredu sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y fangre benodedig yn cau ac yn parhau i fod ar gau yn unol â pharagraff 3—

(a) perchennog neu feddiannydd y fangre benodedig;

(b) unrhyw berson arall sy'n ymwneud â rheoli mynediad i'r fangre honno neu ymadawiad â'r fangre honno.

5. Yn ystod y cyfnod a ddisgrifir ym mharagraff 3, ni chaiff unrhyw berson fynd i'r fangre benodedig, neu fod yn y fangre benodedig, oni bai ei fod wedi ei awdurdodi (ar lafar neu yn ysgrifenedig) gan—

(a) Gweinidogion Cymru,

(b) Cyngor Dinas a Sir Abertawe,

(c) Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru, neu

(d) cwnstabl.

Mark Drakeford

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru

Am 3.10 p.m. ar 26 Tachwedd 2021